# Polisi Codi Tâl

Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol :

Llofnod y Cadeirydd: …… Dyddiad: ……

Llofnod y Pennaeth: …….…….. Dyddiad: ……

Dyddiad Adolygu: ……

Mae Llywodraethwyr yr Ysgol, ar ôl ystyried eu cyfrifoldebau o dan ddeddf Diwygio Addysg 1998 wedi paratoi'r polisi canlynol ynghylch codi tâl a rhyddhad rhag talu.

Codir taliad **LLAWN** ar rieni am yr eitemau canlynol:

1. Difrod i werslyfrau neu gyfarpar addysgol o ganlyniad i gamymddygiad disgybl.
2. Bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr Ysgol neu'r AALl (ac eithrio pan fo gan ddisgyblion hawl statudol i ryddhad rhag talu)
3. Gweithgareddau a gynhelir tu allan i oriau'r Ysgol.

Codir taliad **RHANNOL** am ddifrod i ffenestri, drysau neu ffitiadau adeiladu'r Ysgol o ganlyniad i gamymddygiad disgybl.

Codir taliad am hyfforddiant ar offeryn cerdd. Caiff y trefniadau ar gyfer codi taliad o'r fath eu hadolygu'n flynyddol.

Teimla'r Llywodraethwyr ei fod yn ddymunol i'r Ysgol gynnig gweithgareddau dewisol gan fod gweithgareddau o'r fath yn amhrisiadwy yn gymdeithasol ac yn addysgol. Tra'n derbyn yr athroniaeth na ddylid gwahardd plant rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u haddysg oherwydd nad oes ganddynt fodd i dalu, mae'r Llywodraethwyr yn cydnabod nad oes modd i'r Ysgol ddarparu gweithgareddau dewisol trwy gyfrwng lwfansau'r pen ac felly gofynnant i rieni wneud **CYFRANIADAU GWIRFODDOL** tuag at:

1. Gost teithiau Ysgol (cludiant, cael mynediad a.y.b.)
2. Gost gwahodd grwpiau theatrig neu berfformwyr/artistiaid eraill i'r Ysgol. (achlysurol)
3. Gostau eraill yn sgil digwyddiadau/gweithgareddau a drefnwyd gan yr Ysgol er budd y plant ac yr hysbyswyd rhieni/warchodwyr yn eu cylch yn ysgrifenedig ymlaen llaw.
4. Pan na cheir cyfraniadau gwirfoddol, cyfrifoldeb y Pennaeth a'r staff fydd asesu pa mor ymarferol yn ariannol yw darparu pob gweithgaredd opsiynol, a phe bai angen, diddymu gweithgaredd ac ad-dalu unrhyw gyfraniadau a ragdalwyd.

Teimla'r Llywodraethwyr hefyd ei fod yn briodol i blant gael cyfleoedd i:

1. Ddod a chyfraniadau mewn nwyddau neu trwy nawdd tuag at elusen neu gronfeydd yr Ysgol pe dymunir.
2. Gyfrannu tuag at roddion gwerthfawrogiad pe dymunir.
3. Brynu eitemau a ddefnyddir yn yr Ysgol y dymunant iddynt fod yn eiddo iddynt e.e. recorders.

# Charging Policy

Policy adopted by Governing Body :

Signed by Chairperson: ……..…… Date: ……

Signed by Headteacher: ……..…….. Date: ……

Review Date: ……

The School Governors, having considered their responsibility under the Education Amendment Act 1998 have prepared the following policy:

Parents are **CHARGED IN FULL** for the following:

1. Loss or damage to textbooks or educational equipment that occurs as a result of misbehaviour by a pupil.
2. Food and accommodation for residential activities that have been arranged by the school or by the LEA (unless the pupil is entitled to statutory discharge.)
3. Activities that occur outside teaching hours.

**PARTIAL CHARGES** will be made for windows, doors or fittings in the school building that occur as a result of pupil behaviour.

Charges for musical instrument tuition are made according to arrangements which are reviewed annually.

The Governing body feel that it is desirable for the school to offer additional, voluntary activities in order to enrich the educational and social experiences of the pupils. The Governors agree that no individual should be prohibited from participating in an activity that is directly involved with his education because he/she is unable to meet the necessary payments. Nevertheless some activities are offered, from which the children benefit but that would not normally be covered by the school budget and **VOLUNTARY CONTRIBUTIONS** from parents will be sought for:

1. Cost of school trip (transport, admission etc.)
2. The cost of inviting performers or artists to school.
3. Cost of other activities which the school believes to be of benefit to the child, where the parents have been informed in writing beforehand of the financial implications of the activity.
4. When voluntary contributions do not meet costs, the Head teacher and the staff will consider whether the activity can take place, and if needs be, cancel any arrangements and reimburse any contributions made.

The Governing body consider that it is appropriate for pupils to be given the opportunity to:

1. Donate or contribute by way of items or monetary means towards charitable or school fundraising events on a voluntary basis.
2. Contribute towards Thank you gifts should they wish.
3. Purchase items to be used at school, but that would then be owned by them e.g. recorders.